**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

3 Medi 2024

**Blaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024 i 2030**

Annwyl Jane,

Ysgrifennaf atoch i rannu barn y Pwyllgor ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau drafft ar gyfer diwylliant yng Nghymru o 2024 i 2030.

**Barn flaenorol y Pwyllgor ar Strategaeth Ddiwylliant ar gyfer Cymru**

**Ysgrifennodd** y Pwyllgor at eich rhagflaenydd ym mis Medi 2021 yn croesawu'r ymrwymiad i greu strategaeth ddiwylliant newydd ar gyfer Cymru. Ar y pryd, roedd y Pwyllgor yn derbyn bod nifer o ffactorau rhyngberthynol a allai effeithio ar gyflwyno strategaeth, gan gynnwys y pandemig Covid-19 ac Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ar y pryd. Nododd y Pwyllgor ar y pryd y byddai'n disgwyl i'r strategaeth gynnwys gweithgarwch, dyraniadau cyllid ac amserlenni penodol ar gyfer cyflawni unrhyw nodau a osodwyd.

**Gofynnodd** y Pwyllgor i'ch rhagflaenydd ddarparu dyraniadau cyllideb ac amlinelliad o'r gwahanol raglenni llywodraeth a fyddai'n sail i'r strategaeth. Yn ystod **gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24**, dywedwyd wrthym bod Llywodraeth Cymru wedi penodi cwmni allanol i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio datblygiad y strategaeth. Goruchwyliwyd y gwaith hwn gan grŵp llywio, fel y cadarnhawyd mewn **datganiad ysgrifenedig** ym mis Mawrth 2023. Roedd y datganiad hwnnw'n nodi:

> *"Mae ein ffocws o hyd ar sicrhau bod y Strategaeth newydd yn bragmatig ac yn uchelgeisiol, a'i bod yn annog dull mwy cydlynol o ran cydweithio rhwng y sectorau dan sylw, ac o ran adlewyrchu diwylliant ar draws gwaith Llywodraeth Cymru."*

**Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Yn y cyfamser, mae bron i dair blynedd wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i Strategaeth Ddiwylliant newydd i ymgysylltu â'r sector celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu. Yn ystod y gwaith **craffu ar y Gyllideb Ddrafft eleni**, gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog blaenorol pa newidiadau fyddai'n cael eu gwneud i'r strategaeth yn wyneb heriau cyllidebol, a beth fyddai wedi newid yn ei disgwyliadau o ran cyrff hyd braich a'r strategaeth. **Dywedwyd wrthym** bryd hynny y byddai Llywodraeth Cymru yn:

> "...*cydbwyso'r angen i ddarparu cyfeiriad strategol ac i gynnal y weledigaeth a'r uchelgeisiau tymor hir a gynhwysir yn y strategaeth ddrafft gyda dull pragmatig o weithredu i gefnogi cyflawni'r uchelgeisiau hyn y gellid eu datblygu yn y tymor byr ...[ac] yn adolygu Llythyrau Cylch Gwaith yn dilyn Setliad y Gyllideb.*"

Ym mis Chwefror eleni, gwnaethom nodi y byddai gostyngiadau yn y gyllideb yn effeithio ar allu cyrff hyd braich i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol ganddynt, ac y dylai Llywodraeth Cymru gychwyn trafodaethau brys ynghylch eu llythyrau cylch gwaith. Gwnaethom awgrymu y dylai unrhyw newidiadau o'r fath gael eu plethu â chyhoeddi'r Strategaeth Ddiwylliant.

Roedd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol yn amlinellu gostyngiad o 10.5 y cant yn eu cyllideb (hynny yw, o gymharu â'u dyraniadau dangosol ar gyfer 2024-25) ar gyfer y cyrff hyd braich hynny a fyddai'n allweddol i gyflawni Strategaeth Ddiwylliant. Hefyd, cadarnhawyd y byddai gostyngiad o £1.233 miliwn yn y cyllid a ddyrennir ar gyfer y strategaeth.

Nodwyd hefyd ein siom yn ein hadroddiad yn y Gyllideb Ddrafft pan ddywedwyd wrthym fod gweinidogion yn "gobeithio" y byddai'r strategaeth yn barod erbyn diwedd y flwyddyn. Dywedom ar y pryd:

> *"Mae'r diffyg uchelgais hwn yn golygu y bydd yn cymryd bron i dair blynedd i gyflawni rhywbeth y dywedwyd wrthym yn wreiddiol fyddai'n cymryd chwe mis. O ystyried effaith y pandemig, costau uchel o ran ynni a chwyddiant, a gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb, byddai o fudd i ddangos cyfeiriad strategol i'r sector."*

**Ein barn ni**

Mae'n hen bryd cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn croesawu'r amlinelliad o'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau sy'n cyd-fynd â nhw fel y maent wedi'u nodi. Er gwaethaf hyn, rydym yn bryderus ynghylch y diffyg manylion sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau hyn. Nid yw'n glir i ni sut y cânt eu cyflawni, na chan bwy, na chwaith pa amcanion fydd yn cael eu gosod. Hefyd, o ystyried y gostyngiadau o ran cyllid a brofwyd gan y sector diwylliant yn y flwyddyn ariannol hon, (yn ogystal â'r swm a ddyrannwyd ar gyfer y Strategaeth Ddiwylliant) nid ydym yn sicr sut y caiff hyn ei ariannu, heb sôn am ei gyflawni. Mae'r cynnydd gwael a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf o ran rhai o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn gwaethygu ein pryderon. Fel un enghraifft, mae prosiect

“Amgueddfa'r Gogledd”, yr oedd diffyg eglurder a manylder amdano, wedi'i ddileu. Araf fu’r cynnydd hefyd gyda phrosiect yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol, sydd bellach ond cysgod o'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol yn yr astudiaeth ddichonoldeb. Mae’r hanes diweddar hwn o beidio â chyflawni prosiectau yn y sector diwylliant yn siomedig, ac mae angen sicrwydd clir arnom ynghylch yr hyn sydd wedi’i gynllunio fel rhan o’r strategaeth hon, a sut y caiff ei gyflawni.

Mae dau bwynt penodol, fodd bynnag, y teimlwn y dylid eu hadlewyrchu, yn ogystal â'r hyn sydd eisoes wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad. Yn gyntaf, mae’r toriadau diweddar i’r ddarpariaeth ieuenctid yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi gosod chwyddwydr ar y diffyg hyfforddiant lefel uwch sydd ar gael i ddisgyblion yn y maes hwn. O ystyried hyn, byddem yn argymell yn gryf fod unrhyw strategaeth yn y dyfodol yn mynd i’r afael â’r angen i bobl ifanc ledled Cymru allu ceisio rhagoriaeth ym maes cerddoriaeth a drama.

Yn ail, byddem yn eich annog i fynd i’r afael ag argymhellion ein hadroddiad sydd ar ddod yn fuan ar ddiwylliant a’r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd, ac ymateb iddynt. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth bwysig, sy’n peri pryder, am y ffyrdd y bydd ymadawiad y DU â’r UE yn effeithio ar weithgareddau trawsffiniol, a byddem yn gofyn bod ein hargymhellion terfynol hefyd yn cael eu trin fel tystiolaeth ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Byddwn yn darparu copi o'r adroddiad hwn i chi cyn gynted â phosibl. Ymhellach, mae nifer sylweddol o berthnasoedd pwysig a pharhaus wedi’u meithrin rhwng sefydliadau diwylliannol Cymru a sefydliadau diwylliannol rhyngwladol dros y blynyddoedd. Rydym o’r farn bod ein cyfrifoldebau am graffu ar Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn golygu ein bod ni yn y sefyllfa orau i asesu’r strategaeth ddiwylliant o’r safbwynt hwn, ac rydym o’r farn y dylai’r ddwy fod yn gydgysylltiedig.

I gloi, mae’r sector diwylliant wedi mynd drwy gyfnod sylweddol o helbul yn y blynyddoedd diwethaf. Mae’n parhau i wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i siociau diweddar. Mae'r sector yn galw’n daer am yr arweinyddiaeth y gobeithiwyd y byddai'r strategaeth hon yn ei darparu. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i roi rhagor o fanylion am y strategaeth, gan gynnwys gweithgarwch, dyraniadau cyllid ac amserlenni penodol ar gyfer cyflawni’r nodau a bennir. Wrth wneud hynny, credwn y byddai’n rhoi eglurder i’r sector sy’n ddibynnol ar lwyddiant y strategaeth hon.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.